Job Advert

Geo Smart Decisions

Job Title: Stakeholder Engagement Officer

Location: Machynlleth, Wales

Reporting to: Director of Geo Smart Decisions, Dr Crona Hodges

Job role

This is a role which involves a large degree of engagement work with the public and organisations on a 43 month project funded by the European Regional Development Fund (Ireland Wales INTERREG Programme) called ECHOES – Effects of Climate Change on Birds around the Irish Sea. The role will be under the guidance of Company Director, Dr Crona Hodges who is also Operation Manager.

ECHOES staff will work with ornithologists and experts from habitat and land cover mapping, species distribution modelling, climate change and associated impacts as well as software developers and technical experts in the area of satellite Earth Observation and web services. Overall, the project aims to increase public perception and awareness of climate change impact and associated risks to natural habitat along the Irish Sea with specific focus on Curlew and Greenland White-fronted geese.

This post is suited to an individual who is enthusiastic about communicating both scientific and community issues, is a Welsh speaker, can work independently, is able to take ownership of their work and has advanced presentation and facilitation skills as well as report writing and communication skills. This is a central role to the ECHOES Stakeholder Engagement Work Package.

About Geo Smart Decisions

Formed in 2011, GSD works on public and private sector projects that have both a spatial and natural science element and all of which are within the environment sector. We are based in Gwynedd and as well work out of an office in Machynlleth. Projects have included a range of applications in environmental data management for large and small environmental consultancies, on projects in the UK, the Middle East, Africa and more recently South America. The use of satellite imagery and derived products to inform our clients' decision making forms a significant part of our analytical and consultancy work.

Other projects close to home have involved us working with clients from the public, private and not-for-profit sectors who have a remit or requirement to map, monitor and or manage the natural environment. With the growth in downstream satellite industry, GSD are excited to be part of a dynamic geospatial and Earth Observation community here in the UK and are involved in developing innovative solutions for making this important data source available to practitioners involved in a range of environmental applications.

Main Duties and Responsibilities

- Take on a lead role in the Stakeholder Engagement Work Package and all public-facing ECHOES activities including organising ECHOES stakeholder meetings, writing minutes, logistics including booking venues.
- Assist in the development and operations of the ECHOES communications plan.
- Lead and facilitate stakeholder engagement through workshops, social media and other awareness raising opportunities, including development of materials about the project.
- Contribute to the ECHOES website, newsletters and other communications about the project.
- Work collaboratively with partners in both Ireland and Wales.
- Work closely with Operation Manager to ensure all stakeholder events and communications run smoothly and effectively.
- To engage in the dissemination of the project results and contribute where required to project outputs.
- Conduct all administrative and management work associated with the project to agreed deadlines and processes.
- To carry out any additional duties as may reasonably be required within the general scope and level of the post – directed by Operation Manager.

Skills and experience

- Spoken and written Welsh language (preferred)
- Excellent facilitation skills and public speaking skills and experience
- Experience working with community groups and/or on EU funded or similar sized projects
- Excellent written and verbal communication skills
- Excellent planning and organisational skills
- Ability to work both independently and collaboratively
- An open and honest manner with an easy-going approach
- Experience in writing reports and meeting collaborative project deliverables
- Experience in planning, running and / or presenting in workshops
- Proficient in use of social media
- Knowledge and understanding of climate change prediction models (desirable)
- Knowledge about bird populations and associated ecology (desirable)

Knowledge and education

- Degree level education in relevant degree or significant experience (with appropriate evidence) in communications, facilitation

Salary £24,000 pro rata.

Contract Duration This is a part time post, 3 days per week beginning in April 2020.

Hysbyseb Swydd

Teitl y Swydd: Swyddog Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Lleoliad: Machynlleth, Cymru

Yn adrodd wrth: Cyfarwyddwr Geo Smart Decisions, Dr Crona Hodges

Rôl y swydd

Dyma rôl sy'n cynnwys gwaith ymgysylltu sylweddol â'r cyhoedd a sefydliadau ar brosiect 43 mis a ariennir gan Cronfa Datbiygu Rhanbarthol Ewrop (Raglen INTERREG Cymru Iwerddon) ECHOES – Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd ar Adar o gwmpas Môr Iwerddon. Bydd y rôl o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cwmni a'r Rheolwr Gweithrediadau Dr Crona Hodges.

Bydd staff ECHOES yn cydweithio ag adaryddwyr ac arbenigwyr o feysydd mapio cynefin a gorchudd tir, modelu dosbarthiad rhywogaethau, newid yn yr hinsawdd ac effeithiau cysylltiedig yn ogystal â datblygwyr meddalwedd ac arbenigwyr technegol ym maes Arsylwi ar y Ddaear o loerennau a gwasanaethau'r we. Nod cyffredinol y prosiect yw cynyddu canfyddiad ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o effaith newid yn yr hinsawdd a'r peryglon cysylltiedig i gynefinoedd naturiol ar lannau Môr Iwerddon gan ganolbwyntio'n benodol ar y gylfinir a gwyddau talcenwyn yr Ynys Las.

Mae'r swydd hon yn addas i unigolyn sy'n frwdfrydig am gyfleu materion gwyddonol a chymunedol, sy'n siarad Cymraeg, sy'n gallu gweithio'n annibynnol, sy'n medru perchenogi ei waith ac sydd â sgiliau cyflwyno a hwyluso rhagorol yn ogystal â sgiliau ysgrifennu adroddiadau a chyfathrebu. Dyma rôl ganolog i Becyn Gwaith Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ECHOES.

Ynglŷn â Geo Smart Decisions

Wedi'i ffurfio yn 2011, mae GSD yn gweithio ar brosiectau yn y sector cyhoeddus a phreifat sy'n cynnwys elfen ofodol ac o wyddoniaeth naturiol ac sydd i gyd o fewn y sector amgylcheddol. Fe'n lleolir yng Ngwynedd ac rydym hefyd yn gweithio o swyddfa ym Machynlleth. Mae ein prosiectau wedi cynnwys amryw o gymwysiadau ar gyfer rheoli data amgylcheddol i ymgyngoriaethau amgylcheddol mawr a mân ar brosiectau yn y DU, y Dwyrain Canol, Affrica ac yn fwy diweddar, De America. Mae defnyddio delweddaeth loeren a chynhyrchion sy'n deillio ohoni yn sail i benderfyniadau cleientiaid yn ffurfio rhan sylweddol o'n gwaith dadansoddi ac ymgynghori.

Mae prosiectau eraill yn y cyffiniau agos wedi cynnwys gweithio gyda chleientiaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a dielw sydd â chylch gwaith i fapio, monitro a/neu reoli'r amgylchedd naturiol neu le mae'r rheini'n ofynnol. Gyda thwf y diwydiant derbyn o loerennau, testun cyffro i GSD yw bod yn rhan o gymuned geo-ofodol ac Arsylwi ar y Ddaear ddeinamig fan hyn yn y DU ac maent yn ymwneud â datblygu atebion arloesol i sicrhau bod y ffynhonnell ddata bwysig yma ar gael i ymarferwyr sy'n ymdrin ag amrywiaeth o gymwysiadau amgylcheddol.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

- Ymgymryd â rôl arweiniol ym Mhecyn Gwaith Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a holl weithgareddau ECHOES yn wyneb y cyhoedd gan gynnwys trefnu cyfarfodydd ECHOES â rhanddeiliaid, ysgrifennu cofnodion a logisteg, gan gynnwys bwcio canolfannau.
- Cynorthwyo wrth ddatblygu a gweithredu cynllun cyfathrebu ECHOES.
- Arwain a hwyluso ymgysylltiad â rhanddeiliaid drwy weithdai, y cyfryngau cymdeithasol a chyfleoedd eraill i godi ymwybyddiaeth gan gynnwys datblygu deunyddiau am y prosiect.
- Cyfrannu i wefan ECHOES, cylchlythyrau a mathau eraill o gyfathrebu am y prosiect.
- Cydweithio â phartneriaid yng Nghymru ac Iwerddon.
- Cydweithio'n agos â'r Rheolwr Gweithrediadau i sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau i randdeiliaid a chyfathrebu'n rhedeg yn esmwyth ac yn effeithiol.
- Lledaenu canlyniadau'r prosiect a chyfrannu lle bo angen i allbynnau'r prosiect.
- Gwneud yr holl waith gweinyddol a rheoli sy'n gysylltiedig â'r prosiect yn unol â dyddiadau cau a phrosesau penodedig.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill a all fod yn ofynnol yn rhesymol o fewn cwmpas cyffredinol a lefel y swydd – dan gyfarwyddyd y Rheolwr Gweithrediadau.

Sgiliau a phrofiad

- Y gallu i siarad ac ysgrifennu'r Gymraeg (yn cael ei ffafrio)
- Sgiliau hwyluso rhagorol a sgiliau a phrofiad o siarad cyhoeddus
- Profiad yn gweithio gyda grwpiau cymunedol a/neu brosiectau a ariennir gan yr UE neu rai tebyg o ran eu maint
- Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifennu rhagorol
- Sgiliau cynllunio a threfnu rhagorol
- Y gallu i weithio'n annibynnol ac ar y cyd
- Ymarweddiad agored, gonest a hyblyg
- Profiad o ysgrifennu adroddiadau a chyflawni cyd-amcanion y prosiect
- Profiad o gynllunio, cynnal a/neu gyflwyno mewn gweithdai
- Hyddysg mewn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o fodelau darogan newid yn yr hinsawdd (dymunol)
- Gwybodaeth am boblogaethau adar a'r ecoleg gysylltiedig (dymunol)

Gwybodaeth ac addysg

- Addysg hyd at lefel gradd berthnasol neu brofiad sylweddol (gyda'r dystiolaeth briodol) mewn cyfathrebu, hwyluso

Cyflog £24,000 pro rata.

Hyd y Contract Swydd ran-amser yw hon, 3 diwrnod yr wythnos gan ddechrau ym mis Ebrill 2020.